# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas Garnedd Pentraeth**

**PLAS GARNEDD PENTRAETH**
**PENTRAETH**
**LL75 8YF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cyhoeddi

**21 Mawrth 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Plas Garnedd Care Limited wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaeth cartref gofal ym Mhlas Garnedd Pentraeth ar gyfer hyd at 23 o unigolion ac mae wedi'i leoli ym Mhentraeth, Ynys Môn. Mae gan y gwasanaeth hwn unigolyn cyfrifol dynodedig, ac mae'r rheolwr wedi'i chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Mae dewisiadau bwyd iach a maethlon ar gael ac mae'r staff yn deall dewisiadau deietegol y bobl. Mae gwasanaeth dwyieithog ar gael bob amser. Caiff y bobl eu hannog i fod yn annibynnol ac maent yn derbyn gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan staff sy'n deall eu hanghenion. Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg y bobl wedi'u cwblhau a chânt eu hadolygu'n fisol. Mae'r amgylchedd yn lân ac mae ystafelloedd y bobl yn cynnwys eitemau sydd o bwysigrwydd personol iddynt. Mae gan y gwasanaeth brosesau monitro ac archwilio ar gyfer sicrhau ansawdd ar waith. Caiff y staff eu goruchwylio'n rheolaidd ac maent yn derbyn cyfleoedd hyfforddi a chymorth gan reolwr ymroddedig.

### 2. Gwelliannau

Dyma'r arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gael ei ailgofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyflwyno bwydydd meddal.
- Cynlluniau personol a siartiau rowndiau bwriadol.
- Rheoli meddyginiaethau.
- Sicrhau bod cypyrddau dillad yn sownd wrth y waliau.
- Rota glanhau'r gegin a chofnodi tymereddau’r bwyd a'r rhewgell yn gyson.
- Mynd i'r afael ag afliwiad, ardaloedd llaith posibl a chyddwyso ar ffenestr, silff ffenestr a wal sydd ar y grisiau.
- Cynnwys lluniau o'r staff yn eu ffeiliau a phroses sefydlu'r staff.
- Cwblhau arfarniadau staff.
- Sicrhau bod y rheolwr yn goruchwylio ymatebion hyfforddi'r staff.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Caiff amrywiaeth o weithgareddau eu trefnu ac mae'r bobl yn dewis pa weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt. Caiff prydau eu paratoi'n ffres, mae'r staff yn deall dewisiadau'r bobl a chaiff prydau amgen eu darparu. Mae gwasanaeth dwyieithog ar gael bob amser a gall y bobl ddefnyddio gwasanaethau eirioli.

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt. Nid yw'r gwasanaeth yn trefnu cydlynydd gweithgareddau gan mai'r staff sy'n eu trefnu ac maent yn cadw cofnodion dyddiol o gyfranogiad y bobl. Dangosodd y cofnodion a welsom fod y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol er mwyn annog ysgogiad meddyliol a chorfforol. Gwelsom enghreifftiau o gofnodion anghyflawn ac aeth y rheolwr i'r afael â hyn gyda'r staff. Roedd telynor yn y cartref yn ystod ein hymweliad cyntaf ac roedd canwr/gitarydd yno y diwrnod canlynol. Gwnaeth y bobl ymgysylltu'n rhagweithiol â'r ddwy sesiwn a chawsant gymorth gan y staff. Gwelsom y bobl yn canu, clapio, gwenu a chwerthin a dywedodd y bobl nad oeddent am gymryd rhan a bod y staff yn parchu eu dewis. Dywedodd y bobl wrthym fod y gweithgareddau'n amrywiol ac y gallant ddewis yr hyn yr oeddent am gymryd rhan ynddo. Gwnaeth y staff gadarnhau hyn mewn trafodaethau a nodi bod y darparwr yn croesawu ymweliadau gan ddiddanwyr. Dywedodd yr ymwelwyr wrthym hefyd fod gweithgareddau'n cael eu cynnal yn rheolaidd ac y cânt eu hannog i gymryd rhan os oeddent yn dymuno gwneud hynny, a gwelsom enghreifftiau o hyn yn ystod ein hymweliad. Mae'r bobl mor weithgar ag y dymunant, mae'r gweithgareddau yn amrywiol a chaiff eu dewisiadau, diddordebau a'u galluoedd eu hystyried.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn derbyn deiet iach. Ym mis Mai 2018, dyfarnwyd sgôr hylendid bwyd o 5 (da iawn) i'r gwasanaeth, sef y sgôr uchaf posibl sydd ar gael. Roedd y fwydlen pedair wythnos yn cynnig amrywiaeth o brydau iach a maethlon. Dangosodd trafodaethau â staff y gegin eu bod yn ymwybodol o ddewisiadau ac anghenion deietegol y bobl a'u bod yn cael gwybod am unrhyw newidiadau gan y staff. Gwelsom fod diodydd ar gael ar gyfer y bobl a'u hymwelwyr drwy gydol y dydd. Cafodd y pryd amser cinio ei baratoi â chynhwysion ffres. Dangosodd y trafodaethau â'r bobl eu bod yn hapus â blas ac ansawdd eu prydau. Gwnaethant hefyd ganmol y prydau a oedd ar gael a nodi eu bod yn derbyn prydau amgen pryd bynnag y dymunant. Gwelsom ddau berson yn derbyn prydau o ansawdd meddal a dangosodd y trafodaethau eu bod wedi'u mwynhau. Dywedodd un person wrthym ei fod yn teimlo y gellid gwella cyflwyniad y pryd. Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef hefyd yn cytuno â hyn. Gwelsom nad oeddent wedi defnyddio'r mowldiau bwyd a gwnaethom drafod manteision bwydydd meddal a oedd yn edrych yn apelgar â'r cogydd, y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym y byddai'n mynd i'r afael â'r agwedd hon, ac ystyriwyd bod hyn yn faes i'w wella ymhellach. Deellir dewisiadau deietegol y bobl a gallant gael prydau sydd wedi'u paratoi'n ffres.

Caiff hunaniaeth a diwylliant unigol y bobl eu parchu ac mae'r cartref yn darparu gwasanaeth cyson yn Gymraeg. Mae gwasanaeth dwyieithog ar gael bob dydd ac mae staff sy'n siarad Cymraeg ar gael yn ystod pob sifft. Mae 10 unigolyn sy'n byw yn y cartref yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf ac roedd dros hanner y tîm o staff naill ai'n deall

Cymraeg neu'n ei siarad fel eu hiaith gyntaf. Dywedodd tri unigolyn wrthym ei fod yn bwysig iddynt allu siarad Cymraeg yn ddyddiol, a dywedodd un ohonynt *'Cymraeg dwi, a dwi eisiau siarad Cymraeg"* (I'm Welsh, and I want to speak Welsh). Dywedodd y bobl a'r staff wrthym fod diwylliant Cymru yn cael ei barchu a bod digwyddiadau â thema yn cael eu trefnu i'w ddathlu. Caiff y bobl gyfleoedd i fynegi eu hunain yn eu dewis iaith ac mae'r cartref yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg.

Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau cwyno a diogelu ar waith, ac mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn gallu defnyddio gwasanaethau eirioli annibynnol.  Edrychom ar bolisïau chwythu'r chwiban, cwyno, canmol a diogelu'r gwasanaeth.  Dywedodd y rheolwr wrthym nad oedd wedi derbyn cwyn ffurfiol gan unrhyw un a oedd yn byw yn y cartref na'r staff. Gwelsom eu bod wedi derbyn llawer o ganmoliaeth ynglŷn â'r gwasanaeth gan bobl sy'n byw yn y cartref ac ymwelwyr. Dywedodd y rheolwr ei fod yn trafod materion â'r bobl sy'n byw yn y cartref a'r staff yn rheolaidd a gwelsom enghreifftiau o'r trafodaethau yn ystod ein hymweliadau. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban a diogelu ac y byddent yn hapus i roi gwybod am unrhyw bryderon os oedd angen. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn hyderus y byddai'r staff yn gwrando ar eu barn ac y byddent yn cael eu trin yn gyfrinachol ac yn broffesiynol. Dywedodd pob unigolyn y cawsom sgwrs ag ef y byddai'n hapus i roi gwybod i'r rheolwr neu'r staff am unrhyw bryderon. Roedd gwasanaethau eirioli annibynnol hefyd ar gael i'r bobl ar unrhyw adeg a gwelsom enghraifft ysgrifenedig o hyn yn ffeil gofal un ohonynt. Dangosodd y cofnodion fod y staff yn rhoi gwybod am faterion sy'n ymwneud â Diogelu i'r awdurdod lleol ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn amserol. Gall y bobl sy'n byw yn y cartref, y staff a pherthnasau/cynrychiolwyr fod yn hyderus y gwrandewir ar bryderon ac yr ymdrinnir â nhw'n broffesiynol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Caiff anghenion a dewisiadau personol y bobl eu parchu ac mae'r gofal a ddarperir yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff cynlluniau personol ac asesiadau risg eu hadolygu'n rheolaidd a gall y bobl ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r bobl wedi datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd a'r staff. Mae angen bod yn fwy gwyliadwrus wrth gofnodi gwybodaeth yn y Cofnodion Rhoi Meddyginiaethau.

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn derbyn gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am eu hanghenion a'u dewisiadau unigol. Edrychom ar ffeiliau gofal tri unigolyn mewn perthynas â'u hanghenion gofal a chymorth a nodwyd. Roedd pob ffeil yn cynnwys gwybodaeth cyn derbyn a gwblhawyd gan y rheolwr drwy ofyn am farn yr unigolyn, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a theuluoedd/cynrychiolwyr lle y bo'n bosibl. Roedd ffeil pob unigolyn yn cynnwys cynllun personol â gwybodaeth a oedd yn hawdd ei darllen am eu hanghenion gofal a chymorth. Roedd y wybodaeth yn canolbwyntio ar yr unigolyn gan ei bod wedi'i hysgrifennu o safbwynt yr unigolyn a'i bod yn canolbwyntio ar ei ddewisiadau o ran y ffordd y dylid darparu'r gofal. Roedd y ffeiliau gofal hefyd yn cynnwys asesiadau risg a oedd yn ymwneud â llesiant corfforol a meddyliol a oedd yn rhoi canllawiau i'r staff ar sut i leihau peryglon posibl i unigolion. Gwelsom fod archwiliadau ac asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer cwympiadau, a bod y staff yn cymryd camau gweithredu os byddai nifer y digwyddiadau yn cynyddu. Dywedodd y rheolwr fod y broses hon wedi gostwng nifer y cwympiadau yn sylweddol. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y bobl sy'n byw yn y cartref a'u teuluoedd/cynrychiolwyr yn rhan o'r broses o adolygu'r cynlluniau personol. Cadarnhaodd pob unigolyn, aelod o staff ac ymwelydd hyn a dywedodd y staff fod y bobl yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio eu gofal cymaint â phosibl. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn cael eu hadolygu yn fisol, a bod unrhyw newidiadau i anghenion yr unigolion yn cael eu cofnodi. Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau er mwyn gallu gweld pa elfen o gynllun personol yr unigolion a oedd wedi'i diwygio a'r dyddiad y cwblhawyd hyn yn hawdd. Cawsom ein sicrhau gan y rheolwr y byddai sylw'n cael ei roi i hyn. Roedd angen gwneud gwelliannau ychwanegol yn y dull o gofnodi'r gofal am ardaloedd pwyso a ddarperir drwy gydol y nos. Ni welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar eu llesiant a chadarnhaodd yr unigolyn a oedd yn derbyn gofal am ardaloedd pwyso fod y staff yn eu troi bob nos. Caiff anghenion gofal a chymorth yr unigolion eu hasesu a'u nodi ac roeddent yn derbyn gofal yn y ffordd yr oeddent yn dymuno ei gael.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn derbyn gofal amserol oherwydd caiff atgyfeiriadau eu gwneud i wasanaethau proffesiynol. Roedd y wybodaeth yn ffeiliau gofal yr unigolion yn dangos dyddiadau atgyfeirio a chysylltu ag amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal. Gwelsom fod yr atgyfeiriadau hyn wedi'u cwblhau yn amserol ac ar unrhyw adeg yr oedd anghenion y bobl yn newid. Gwnaeth y bobl sy'n byw yn y cartref gadarnhau hyn a dywedwyd wrthym fod y staff wedi trefnu apwyntiadau ar eu cyfer. Gwnaethant hefyd nodi bod y staff yn eu cefnogi yn ystod cyfarfodydd ac ymweliadau gan weithwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol os oedd angen cymorth arnynt. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth am wasanaethau allanol ar unrhyw adeg a bod ganddynt gydberthnasau gwaith cadarnhaol â nhw. Gwelsom enghreifftiau o hyn yn ystod

ein hymweliad wrth i'r staff gysylltu a rhannu gwybodaeth mewn ffordd broffesiynol â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld. Gwelsom hefyd fod ceisiadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) wedi'u cwblhau er mwyn diogelu'r bobl rhag bod yn agored i niwed a rhoddodd y gwasanaeth wybod i AGC amdanynt wedi iddynt gael eu cwblhau. Mae'r staff yn deall ac yn rhagweld anghenion iechyd unigol yr unigolion am eu bod yn gallu defnyddio gwasanaethau proffesiynol i gael cyngor, gofal a chymorth.

Caiff y bobl sy'n byw yn y cartref eu cefnogi gan staff sy'n eu cynnwys mewn sgyrsiau, yn deall eu hanghenion ac yn eu hannog i fod yn annibynnol. Roedd pob unigolyn y cawsom sgwrs ag ef yn hapus gyda'r gofal yr oedd yn ei dderbyn ac yn trafod tîm y staff mewn ffordd gadarnhaol. Dywedwyd wrthym fod y gofal yn cael ei ddarparu gyda *"respect"*, *"dignity"* a bod y staff yn *"very careful"*, *"encourage us to be independent"* ac yn *"know our preferences"*. Dywedodd un person wrthym fod y staff yn gwneud ymdrech i ddeall eu dewisiadau ac mai *"the little touches are really what matters"*. Gwnaethant ddisgrifio'r staff yn *"gyfeillgar"* (friendly), *"llawn hwyl"* (full of fun), *"always happy"* a *"excellent"*. Yn ystod ein harsylwadau, gwelsom fod y staff yn trin y bobl â pharch a charedigrwydd. Roeddent yn cynnwys y bobl mewn sgyrsiau, yn cael hwyl mewn ffordd gyfeillgar ac yn amyneddgar wrth ddarparu'r gofal. Dangosodd y trafodaethau â'r staff eu bod yn deall dewisiadau unigol y bobl ac fe'u gwelsom yn annog ac yn rhoi cymorth i'r bobl wneud pethau drostynt eu hunain. Gwnaeth y trafodaethau â'r ymwelwyr hefyd gadarnhau eu bod yn hapus â'r gofal y mae eu hanwyliaid yn ei dderbyn, bod y staff yn *"very good"*, *"warm"* a'u bod yn falch bod eu hanwyliaid yn *"safe"*. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu trin â pharch, ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff, sy'n ymwybodol o'u dewisiadau.

Yn gyffredinol, defnyddir arferion diogel wrth reoli a rhoi meddyginiaeth. Roedd siartiau'r Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (MAR) a welsom yn cynnwys lluniau o'r bobl a gwybodaeth am unrhyw alergeddau hysbys a oedd ganddynt.  Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau yn y ffordd y caiff y wybodaeth ei chofnodi yn siartiau'r MAR. Gwelsom bum achos o fewn mis lle nad oedd y staff wedi llofnodi i ddangos eu bod wedi rhoi meddyginiaeth, ac 17 o achosion lle nad oedd gwrthlofnodion dau aelod o'r staff wedi'u cofnodi ar gyfer presgripsiynau a ysgrifennwyd â llaw.  Dywedodd y rheolwr wrthym y byddai'n mynd i'r afael â hyn â'r staff ac y byddai'n archwilio'r siartiau'n fwy aml. Ni welsom fod unrhyw un o'r materion hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl. Mae angen bod yn fwy gwyliadwrus wrth gwblhau siartiau cofnodion rhoi meddyginiaeth er mwyn sicrhau y dilynir y gweithdrefnau cywir.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r cartref yn ddiogel rhag mynediad diawdurdod ac mae'n cynnwys digon o le i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da ac mae ystafelloedd y bobl yn cynnwys eiddo personol. Mae angen gwneud gwelliannau i fynd i'r afael ag afliwiad, ardaloedd llaith posibl a chyddwyso ar y grisiau. Mae angen gwneud gwelliannau i'r broses o nodi dyletswyddau glanhau'r gegin a chofnodi tymereddau'r rhewgell a'r bwydydd yn gyson.

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân, cyfforddus a diogel sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Wrth i ni gyrraedd, gwelsom na allai unrhyw un heb awdurdod gael mynediad i'r cartref a gwiriodd y staff ein dogfennau adnabod cyn gofyn i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr yn unol â gweithdrefnau diogelwch tân. Cawsom ein tywys o amgylch yr adeilad a gwelsom ei fod yn daclus ac yn lân a bod digon o le i ddiwallu anghenion y bobl yno. Gwnaeth pob unigolyn a oedd yn byw yn y cartref a phob ymwelydd ganmol glendid y cartref a'i awyrgylch *"cartrefol".* Roedd digon o le a chadeiriau yn y lolfeydd lle y gallai'r bobl gymdeithasu neu fwynhau eu cwmni eu hunain. Gwelsom y bobl yn symud yn rhydd rhwng y lolfeydd a'u hystafelloedd drwy gydol ein hymweliad.

Roedd ystafelloedd y bobl yn cynnwys eiddo personol megis ornamentau, memorabilia, lluniau ac mewn rhai ystafelloedd, eu dodrefn eu hunain. Cafodd y wybodaeth am ofal personol y bobl ei storio'n ddiogel yn hytrach nac yn eu hystafelloedd a'i chwblhau yn unol â'r canllawiau diogelu data. Dywedodd pob unigolyn y gwnaethom siarad ag ef ei fod yn hapus â'r ffordd yr oedd ei ystafell wedi'i ei addurno a'i maint. Gwelsom ddodrefn mewn cyflwr da yn yr ystafelloedd gwely ond nid oedd y cypyrddau dillad wedi cael eu gosod yn sownd i'r waliau. Nododd yr unigolyn cyfrifol y byddai'n cynnal asesiad risg o'r sefyllfa mewn perthynas â'r cypyrddau dillad. Ystyriwyd bod hyn yn faes i'w wella. Gwelsom hefyd nad oedd cyfyngwyr gwrth-ymyrraeth ychwanegol ar y ffenestri wedi'u gosod ym mhob ystafell wely ar y llawr uchaf a bod ceblau estyn yn cael eu defnyddio mewn dwy ystafell wely. Gwnaethom drafod y risgiau posibl gyda'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol, a wnaeth fynd i'r afael â'r materion cyn cwblhau'r adroddiad hwn.

Roedd yr ystafell fwyta wedi'i gosod yn hyfryd. Dywedodd y staff wrthym fod yn well gan rai unigolion gael eu prydau bwyd yn eu hystafelloedd neu'r ystafell fyw. Gwnaeth dau unigolyn sy'n byw yn y cartref gadarnhau hyn a nodi bod y staff yn parchu eu dewisiadau o ran ble roeddent yn hoffi bwyta eu prydau. Roedd ardal y gegin yn lân ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda a dywedodd y staff wrthym eu bod yn dilyn rota glanhau yn ddyddiol. Er hyn, ni welsom unrhyw ddogfennau ysgrifenedig a oedd yn nodi dyddiadau glanhau'r gegin ac ystyriwyd hyn fel maes i'w wella. Dywedodd y cogydd wrthym fod cyfarpar y gegin mewn cyflwr da a bod yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod yr eitemau yn cael eu trwsio neu eu newid cyn gynted â phosibl. Roedd cofnodion ysgrifenedig yn dangos bod tymheredd yr oergell, y rhewgell a bwydydd yn cael eu cofnodi. Gwelsom un achos lle nad oedd tymheredd y rhewgell a'r bwydydd wedi'u cofnodi ac ystyriwyd hyn fel maes i'w wella.

Roedd ardaloedd y golchdy, yr ystafell ymolchi a'r toiled yn lân ac nid oedd y bobl a oedd yn byw yn y cartref yn gallu cael gafael ar unrhyw sylweddau peryglus. Gwelsom fod angen

rhoi sylw i ffenestr, silff ffenestr a wal ar y grisiau gan eu bod wedi afliwio oherwydd lleithder posib ac roedd cyddwysiad yn amlwg. Gwnaethom drafod hyn â'r unigolyn cyfrifol a oedd yn ymwybodol o'r mater a dywedwyd wrthym y byddai'n mynd i'r afael ag ef. Ystyriwyd bod hyn yn faes i'w wella. Roedd y bobl ag anawsterau symudedd yn cyrraedd y llawr cyntaf mewn lifft ac roedd ardal amgaeedig yr ardd yn daclus ac mewn cyflwr da. Roedd esgynfa yn yr ardal a gardd fach o laswellt ffug a oedd wedi'i hamgylchynu â slabiau addurniadol a meinciau lle y gallai'r bobl gymdeithasu neu fwynhau eu cwmni eu hunain.

Cawsom gyfle hefyd i edrych ar sampl o gofnodion iechyd a diogelwch mewn perthynas â diogelwch tân, a chynlluniau personol y bobl ar gyfer gadael mewn argyfwng (PEEP), profion nwyddau trydanol, legionella a gwasanaethu'r lifft a'r cyfarpar codi.  Gwelsom fod y rhain wedi'u cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol a bod amserlen cynnal a chadw yn cael ei defnyddio. Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl a sicrhau ymdeimlad o lesiant.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Caiff y bobl fudd o wasanaeth sy'n gwneud gwelliannau rheolaidd ac sy'n cynnwys y bobl yn ei broses o sicrhau ansawdd. Mae gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cwblhau a chaiff y staff eu sefydlu. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwyr sy'n eu goruchwylio ac sy'n rhoi arweiniad iddynt yn rheolaidd. Mae'r lefelau staffio yn gyson a chaiff y staff gyfleoedd hyfforddiant yn rheolaidd.

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref a'r tîm o staff yn cael budd o wasanaeth sy'n awyddus i nodi ac ymateb i feysydd i'w gwella. Roedd y Datganiad o Ddiben, a oedd wedi'i ddiweddaru'n ddiweddar, yn rhoi disgrifiad cywir o'r gwasanaeth a gynigir. Gwnaeth yr unigolyn cyfrifol ymweld â'r gwasanaeth yn ystod yr arolygiad a darparu copïau o'i ymweliadau monitro ansawdd misol ar ein cyfer. Gwelsom fod ganddynt drefniadau addas ar waith i fonitro, adolygu a gwella'r gwasanaeth. Roedd archwiliadau ar gael mewn perthynas â chwympiadau a diogelu ac roeddent yn y broses o werthuso gwybodaeth o holiadur a dderbyniwyd gan y bobl sy'n byw yn y cartref, y staff, y teuluoedd/perthnasau a'r gwasanaethau comisiynu. Edrychom ar samplau o'r holiaduron a gwelsom eu bod yn cynnwys adborth cadarnhaol am y gofal a'r cymorth a ddarperir. Gwnaeth yr unigolyn cyfrifol hefyd roi crynodeb o'i adroddiad ar ansawdd y gofal i AGC cyn cwblhau'r adroddiad hwn a nodwyd eu bod yn ymrwymedig i wneud newidiadau cadarnhaol i'r gwasanaeth yn y dyfodol. Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i wneud gwelliannau parhaus ac mae ganddo brosesau sicrhau ansawdd ar waith.

Caiff y staff eu fetio'n ddiogel ac maent yn cwblhau hyfforddiant sefydlu ffurfiol. Gwelsom ffeiliau tri aelod o'r staff a gwnaethom edrych ar y broses o sefydlu'r staff. Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys ffurflenni cais, geirdaon gan gyflogwyr blaenorol a'u hanes cyflogaeth. Gwelsom faes i'w wella gan nad oedd y ffeiliau a welsom yn cynnwys lluniau o'r aelodau o staff. Dywedodd rheolwr adnoddau dynol y gwasanaeth wrthym y byddai'n cwblhau'r dasg hon a chadarnhawyd bod y broses hon wedi dechrau cyn cwblhau'r adroddiad hwn. Roedd gwiriadau manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cwblhau, ac roedd yr aelodau newydd o'r staff wedi cwblhau rhaglen sefydlu ffurfiol. Roedd y rhaglen yn cynnwys cysgodi sifftiau â staff profiadol a darllen polisïau a gweithdrefnau amrywiol y gwasanaeth. Gwnaethom drafod manteision cynnal rhaglen sefydlu ffurfiol i'r staff gyda'r tîm rheoli megis rhaglen Arolygiaeth Gofal Cymru a dywedwyd y byddent yn ystyried hyn. Ystyriwyd bod hyn yn faes i'w wella. Caiff gwiriadau cyn cyflogi eu cwblhau a chaiff y bobl sy'n byw yn y cartref eu cefnogi gan aelodau o'r staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant sefydlu ffurfiol ac maent yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth a chânt eu goruchwylio'n rheolaidd. Gwnaethom edrych ar gofnodion goruchwylio ac arfarnu'r staff. Dangosodd fod pob aelod o staff ond dau wedi cael eu goruchwylio'n ffurfiol ar sail dau neu dri mis yn rheolaidd. Trefnodd y rheolwr fod y ddau aelod o staff yn cael eu goruchwylio cyn cwblhau'r adroddiad hwn. Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas ag arfarniadau blynyddol y staff gan nad oeddent wedi'u cwblhau. Gwnaeth pob aelod o staff drafod y rheolwr a'r cymorth roeddent yn ei dderbyn mewn ffordd gadarnhaol. Gwnaethant ddisgrifio'r rheolwr yn *"very fair"*, *"approachable"* and *"brilliant"*. Dywedwyd wrthym eu bod mewn cyswllt â'r

rheolwr yn ddyddiol, eu bod yn mwynhau'r oruchwyliaeth a'u bod yn gallu mynd ato i drafod gwaith neu bryderon personol ar unrhyw adeg. Gwelsom fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal a darllenom gofnodion y ddau gyfarfod diwethaf. Cadarnhaodd y staff hefyd fod y rheolwr yn gwrando ar eu barn a bod y tîm o staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Dywedodd pob unigolyn a oedd yn byw yn y cartref, yr holl staff a'r ymwelwyr fod nifer gyson o staff ar ddyletswydd a gwnaeth cofnodion rota'r staff gadarnhau hyn. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael budd o wasanaeth sydd â nifer gyson o staff ar ddyletswydd ac mae'r staff yn derbyn cymorth rheolaidd.

Caiff y staff gyfleoedd i hyfforddi. Gwelsom fod cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos eu bod wedi cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol sy'n addas i'w rolau. Roedd dros hanner y tîm o staff naill ai wedi ennill cymwysterau mewn gofal ar lefel dau neu uwch neu eu bod yn gweithio i ennill cymhwyster o'r fath. Dangosodd y cofnod hyfforddiant fod pum aelod o staff wedi cwblhau rhwng tair a phum uned hyfforddiant ar e-ddysgu ar yr un diwrnod. Gwnaethom drafod hyn gyda'r rheolwr, yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr adnoddau dynol a gwelsom nad oedd y rheolwr yn goruchwylio ymatebion y staff mewn perthynas â phwnc yr hyfforddiant. Roedd hyn hefyd yn ei gwneud hi'n anodd i'r rheolwr wirio'r ardaloedd yr oedd angen eu gwella ddigon mewn perthynas â chymhwysedd y staff. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr adnoddau dynol wrthym y byddent yn adolygu'r sefyllfa â'r bwriad o wella'r materion hyn. Ni welsom fod y materion hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl ac fe'i hystyriwyd fel maes i'w wella. Dywedodd pob aelod o'r staff wrthym eu bod wedi mwynhau'r hyfforddiant a ddarparwyd, ei fod wedi'u helpu gyda'u rolau a gwnaethant ganmol ei ansawdd.  Caiff y bobl sy'n byw yn y cartref eu cefnogi gan staff sy'n derbyn hyfforddiant amrywiol a rheolaidd a gaiff ei lywio gan arfer gorau.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dyma'r arolygiad cyntaf ers i'r cartref gael ei ailgofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. Dyma'r meysydd i'w gwella a argymhellir er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol pellach i bobl:

- Defnyddio mowldiau cyflwyno bwyd ar gyfer prydau bwyd meddal er mwyn sicrhau eu bod yn ymddangos yn fwy apelgar.
- Sicrhau y caiff y dyddiadau eu cofnodi'n gywir er mwyn adlewyrchu unrhyw ddiwygiadau i gynlluniau personol y bobl ac i nodi'r amseroedd y rhoddir gofal am ardaloedd pwyso yn gyson.
- Mae angen i'r staff fod yn fwy gwyliadwrus wrth lofnodi siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth er mwyn sicrhau bod pob cofnod yn cael ei gwblhau'n gywir. Mae angen i'r siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth hefyd gynnwys gwrthlofnodion dau aelod o'r staff ar gyfer presgripsiynau a ysgrifennwyd â llaw.
- Gosod y cypyrddau dillad yn sownd i'r waliau er mwyn lleihau'r perygl y gellid eu tynnu drosodd ac y byddant yn anafu'r bobl.
- Nodi dyletswyddau glanhau'r gegin a chofnodi tymereddau’r rhewgell a'r bwydydd yn ddyddiol.
- Mynd i'r afael ag afliwiad, ardaloedd llaith posibl a chyddwyso ar ffenestr, silff ffenestr a wal sydd ar y grisiau.
- Dylai ffeiliau'r staff gynnwys lluniau o'r aelodau o staff a dylai'r gwasanaeth ystyried defnyddio fframwaith sefydlu Arolygiaeth Gofal Cymru.
- Dylid cwblhau arfarniadau staff bob blwyddyn.
- Galluogi'r rheolwr i oruchwylio hyfforddiant y staff yn fwy aml mewn perthynas ag e-ddysgu ac ymatebion a chymhwysedd y staff sy'n cwblhau unedau'r hyfforddiant.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Gwnaethom ni, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), gynnal arolygiad arferol dirybudd yn y cartref ar 29 Ionawr 2019 rhwng 09:15am a 18:30pm ac ar 30 Ionawr 2019 rhwng 09:00am a 12:25pm. Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Cawsom sgwrs â 12 unigolyn sy'n byw yn y cartref, y rheolwr, yr unigolyn cyfrifol, pedwar aelod o'r staff gofal, dau aelod o staff y gegin, y rheolwr adnoddau dynol a dau ymwelydd.
- Defnyddiwyd y Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI2). Mae'r adnodd hwn yn galluogi arolygwyr i arsylwi ar ofal a'i gofnodi er mwyn ein helpu i ddeall profiadau'r bobl na allant gyfathrebu â ni.
- Gwelsom 10 ystafell wely, dwy lolfa, yr ardal fwyta, y gegin, dwy ystafell ymolchi, dau doiled, dwy ystafell golchi dillad a'r ardal awyr agored.
- Gwelsom amrywiaeth eang o gofnodion. Gwnaethom ganolbwyntio ar gofnodion gofal tri unigolyn, ffeiliau tri aelod o'r staff, dogfennau sicrhau ansawdd, cofnodion ar gyfer dau gyfarfod y staff, cofnodion meddyginiaeth, hyfforddiant staff, goruchwyliaeth staff, y polisïau cwyno, chwythu'r chwiban a diogelu a detholiad o gofnodion iechyd a diogelwch yn ymwneud â diogelwch tân, legionella ac eitemau trydanol.
- Trafodwyd yr argymhellion â'r rheolwr ar ddiwrnodau'r arolygiad.
- Gwnaethom siarad hefyd â'r unigolyn cyfrifol dros y ffôn ar 30 Ionawr 2019.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: [www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Cartref Gofal** |
| **Darparwr Gwasanaeth** | **GOFAL PLAS GARNEDD CYFYNGEDIG** |
| **Rheolwr** | **Mae'r unigolyn a benodwyd i reoli'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **23** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Dyma'r arolygiad cyntaf ers i'r cartref gael ei ailgofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **29 Ionawr 2019 a 30 Ionawr 2019** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg a Saesneg** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |